Hydref 2026

I: Holl gleifion cofrestredig Canolfan Iechyd Lliswerry sy'n byw yn y cyfeiriad hwn.

Annwyl glaf,

Ysgrifennais atoch yn ôl ym mis Chwefror 2026, i roi gwybod y byddai Canolfan Feddygol Lliswerry yn cael ei rheoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o'r 1af Ebrill 2026 ymlaen, tra byddai'r Bwrdd Iechyd yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau Meddyg Teulu yn y dyfodol.

Rwy'n falch o gadarnhau, yn dilyn proses gaffael lwyddiannus, y bydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn cael eu darparu o Ganolfan Feddygol Lliswerry gan Dr Morgan a'i Bartneriaid, o'r 1af Ionawr 2027 ymlaen. Mae'r bartneriaeth leol hon wedi'i hen sefydlu. Mae'n cynnwys chwe meddyg teulu, sydd hefyd yn dal y contract GMS ar gyfer Practis Meddygol Ringland, hefyd yng Nghasnewydd, yn ogystal ag un contract GMS yn ardal gyfagos Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Ni fydd unrhyw newid i ble a sut y byddwch yn cael mynediad at eich gofal meddyg teulu. Gallaf eich sicrhau nad oes angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddwch yn aros wedi'ch cofrestru gyda Chanolfan Feddygol Lliswerry o dan Dr Morgan a'i bartneriaid.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â staff presennol Canolfan Feddygol Lliswerry a Dr Morgan a'i bartneriaid er mwyn sicrhau trefniadau pontio llyfn i staff a chleifion.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r mater hwn, cysylltwch ag aelod o Dîm Contractio Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd ar 01495 241254/241246. Fodd bynnag, darllenwch y ddogfen Cwestiynau Cyffredin sydd wedi'i hatodi a allai ateb rhai cwestiynau sydd gennych.

Yr eiddoch yn gywir,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Rhif Ffon: 01495 241200

Aneurin Bevan University Health Board
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200

Lloyd Hambridge
Cyfarwyddwr yr Is-Adran
Cyfarwyddwr Is-adran Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor